Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
EBRILL 2010

DYDDIAD	Nos Fercher, 21ain Ebrill
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd Llanwnda
AELODAU'N BRESENNOL	Meurig Williams (Cadeirydd), Elwyn Jones, Gwilym V.Thomas, Elin Evans, Jason Hunt, Huw Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1. **Croeso**

2. **Ymddiheuriadau**
   Tom Ellis

3. **Datgan Buddiant**
   Dim

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion fis Mawrth fel rhai cywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a. Hysbysfwrdd yn Sgwar Rhostryfan – angen cais cynllunio llawn.
   b. Lein Bryngwyn – wedi sicrhau grant gan y Cynulliad am £30,000 i fynd ymlaen â'r prosiect i greu llwybr troed hyd at Tyddyn Gwydd. Dydd Mercher, 14eg Ebrill cafwyd cyfarfod rhwng Cyngor Gwynedd, Elwyn Jones a'r clerc i drafod mynd ymlaen â'r lês. Fodd bynnag, nodwyd bryd hynny na fyddai'n bosib dechrau'r gwaith o glirio'r llwybr tan fydd y tymor nythu wedi dod i ben ddiwedd Awst ddechrau Medi. Clerc yn ymholi am grantiau pellach i gwblhau'r gwaith.
   c. MW – polyn ger y grid gwartheg wrth Ael y Bryn wedi symud. Clerc i gysylltu efo'r Cyngor Sir.
   d. NW – manhole BT yn Rhosgadfan, tarmac wedi malu. Clerc i gysylltu â BT.
   e. NE –darn tir dros y ffordd i Penyceunant – clerc wedi cael ar ddeall mai'r Bwrdd Dwr sydd berchen y tir. Wedi'u ffonio cafwyd sicrhad y byddant yn archwilio'r safle i wneud yn siwr ei fod yn ddiogel.
   f. MW – blas drwg ar y dwr tap yn ddiweddar, clerc wedi holi'r Bwrdd Dwr be ydy'r broblem, a cafwyd sicrhad mai aer sydd yn y peipiau a does dim perygl.
   g. Manhole ger Dolellog wedi blocio, & gulley ger Tegfan, Rhosgadfan – Meirion Williams, Cyngor Gwynedd yn mynd i drefnu gwaith yma.
   h. NE – angen sylw eto i'r gwair sy'n cael ei daflu ar y ffens a'r lôn ger tir Gadlys – Meirion Williams wedi sgwennu at y perchnogion a'u hysbysu y bydd camau pellach yn digwydd os na fyddant yn clirio'r safle. Gofyn am gopi o'r llythyr.
   i. NE – ceir ar werth yn cael eu parcio ar ochr y ffyrdd yn Menai View ac ati – Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r broblem, ac yn ceisio'i datrys.
   j. GLW – cwyno am ffermwr yn bwydo ceffylau ar draws llwybr ger Cae Main. Nodwyd fod baw yn dod dros y llwybr ac yn rhedeg i'r afon. Clerc wedi cysylltu efo DEFRA, Cyngor Gwynedd ac i Asiantaeth yr Amgylchedd.

k. Copi o lythyr gan Ieuan Wyn Jones at Alun Ffred Jones yn amlinellu costau ynghlwm â mesurau i ddiogelu ystlumod ar yr A487 yn Llanwnda: cost y bont newydd i ystlumod: £50,000; cost ffensys, planhigion, goleuadau dros dro a pharhaol £320,000; canllawiau solet ar Lôn Eifion £6,000; cost monitro a chyngor arbenigol £215,000; nifer ystlumod marw a gofnodwyd ar y ffordd newydd 64, 43 o'r rheini yn Ystlumod Pedol Leiaf.

6. **Derbyn Adroddiadau:**.

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	11,677.27
Cyfri Siec:	1,387.22
CYFANSWM	13,064.49

Taliadau:

Cyflog/costau clerc mis Mawrth/ad-daliad Viking Direct – clerc wedi talu £100 efo cerdyn, ond yn disgwyl anfoneb am £126.05 (fodd bynnag, sylwodd fod Viking wedi cymryd y swm i gyd, sef £226.05). Gwnaeth y clerc gamgymeriad wrth wneud y symiau – dylai'r cyfanswm fod yn £701.90 yn hytrach na'r £601.90 nodwyd. £100 yn daladwy i'r clerc ers mis diwethaf.	542.05 100.00

Cyllid y Wlad – dim yn daldwy mis yma

Cyngor Gwynedd – rhent tir cae chwarae Rhostryfan Wyn Williams	1.00

Llythyrau yn cydnabod nawdd. Nododd HW fod llythyr gan Bwyllgor Cae Chwarae Rhosgadfan ar y ffordd.

9. **Materion Cynllunio**

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
CO10A/0182/24/LL
Treflys, Rhostryfan – cais i amnewid to fflat gyda to pris uwchben estyniad ochr presennol.

C10A/0138/24/AM
Llain o dir yn Bodafon, Rhosgadfan – cais i godi dau dy pâr, mynedfa newydd a man parcio

C10A/0093/24/LL
1 Hafod Ruffydd, Rhosgadfan – codi ystafell aml-bwrpas arsafle ystafell ymolchi eisoes wedi'i ddymchwel ynghyd a gosod paneli solar ar do'r ty gwreiddiol

Eisoes wedi'u caniatau:
1 Uwch Menai, Saron – estyniad a modurdy
Dolellog, Dinas – estyniad
Tir tu cefn i'r Arman – newidiadau i'r cynllun gwreiddiol
Tir yn Saron – sied amaethyddol
Disgwylfa, Rhosgadfan – cais ôl-weithredol i greu mynedfa gerbydol a chreu safleoedd parcio

Gohebiaeth:

a. Un Llais Cymru – llythyr yn cydnabod ein haelodaeth o'r gymdeithas
b. Adran Rheoleiddio Cyngor Gwynedd– sicrhau fod y bas-data yn gywir ynglyn â'r rhestr aros am gysgodfannau bysiau
c. Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru – fforwm gymundol – 18.05.10 – Neuadd y Penrhyn, Bangor – 7yh
d. Menter Fachwen – cynnig eu gwasanaethau
e. Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd – gorchymyn gwaharddiad trafnidaeth dros dro – Bontnewydd
f. Gwasanaeth Cyfreithiol Cyngor Gwynedd – gwahardd a chyfyngu aros – Tai Cadfan, Rhosgadfan
g. Gair gan Siôn Owen yn nodi ei gyfeiriad newydd
h. Llythyr gan Robin Millar, ymgeisydd seneddol y Ceidwadwyr yn Arfon yn gofyn i gael cyfarfod yr aelodau

10 **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. EE – Dwynfa, angen checio beth ydy'r gweithgaredd sydd yn digwydd yno ar hyn o bryd. Clerc i holi AMJ.

b. Nodwyd fod deunyddiau gwastraff tir yn cael ei adael ar safle ger Sain, Llandwrog. Angen checio os oes trwydded i wneud hyn.

c. JH – parc Tir Glas – rhai o'r offer angen sylw ac angen rhoi mwy o 'wood bark' ar y parc. Clerc i ofyn wrth Wyn wneud y gwaith. Hefyd angen gofyn wrth Wyn beintio cysgodfannau, rhoi sadolin i feinciau ac i'r hysbysfyrddau.

d. ElJ – angen rhoi gwybod i'r heddlu fod defaid crwydro yn broblem ym mhentrefi Rhosgadfan a Rhostryfan.

e. Drych ger Ty Nant – angen ystyried prynu drych newydd.

f. HW – nododd fod angen camfa newydd rhwng Ffridd Foty a Fron Wydr. Nodwyd na fyddai'n debygol y byddai'r Cyngor Sir yn caniatau camfa bellach ond clerc i ymholi ymhellach.

g. HW – cafwyd cwyn ynglyn â dwr gwyneb ger Rhandir Mwyn, Rhostryfan, clerc i ymholi ymhellach

h. GLW – dwr wyneb ger Tai Minffordd – clerc i ymholi ymhellach.

i. GVT – gulley dwr ger Penygwylwyr angen sylw, gan fod dwr yn llifo i'r man anghywir ac yn peryglu'r wal.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm